Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Cyfarfod Sesiwn Gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Rhan A
(Perfformiad a Gwella GIG Cymru)
3 Medi 2026, 11:00 drwy Microsoft Teams

Yn bresennol		
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd, Cadeirydd y cyfarfod
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Digidol a Data
Huw David	(HD)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Llywodraeth Leol
Yn Bresennol:		
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Cenedlaethol Ymchwil, Data a Digidol
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Leanne Clarke	(LC)	Cyfranogwr yng nghynllun Rheolaeth Ariannol GIG Cymru i Raddedigion (Yn arsylwi)
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Katrina Febry	(KF)	Archwilio Cymru
Sophie Fuller	(SF)	Perfformiad a Gwella GIG Cymru (ar gyfer eitem 3.1)
Ian Kent	(IK)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol
Alexander Rees	(AR)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Neil Stoodley	(NS)	Pennaeth Cyllid Dros Dro
Martin Veale	(MV)	Ymgynghorydd Annibynnol
Ymddiheuriadau		
Kate Young	(KY)	Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol, Trydydd Sector
Catherine Purcell	(CP)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Prifysgol
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Chris Clayton	(CC)	Rheolwr Gyfarwyddwr Perfformiad a Gwella GIG Cymru
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Bree Gatica-Wilcox	(BG-W)	Cynrychiolydd Ochr y Staff
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Agorodd y cyfarfod am 11:00		

Heb Eu Cadarnhau

ACGC 1/2026.09.03	**Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn electronig. **Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law. **Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y byddai'r cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2026.	
ACGC 2/2026.09.03	**Datganiadau o Fuddiant**
Nid oedd datganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.	
ACGC 3/2026.09.03	**Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Perfformiad a Gwella GIG Cymru**
ACGC 3.1/2026.09.03	**Perfformiad a Gwella GIG Cymru - Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol Chwarterol**

Cyflwynodd SF Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol Chwarterol Perfformiad a Gwella GIG Cymru, a oedd yn ymdrin â'r meysydd cydymffurfio canlynol: Rheoli Risg, Archwilio a Chaffael, Cydymffurfedd o ran Atal Twyll a Llywodraethu Gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Gorffennaf 2026.

Tynnodd SF sylw at y canlynol:

- Roedd un risg yn parhau i fod yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru, fodd bynnag, roedd mesurau a gyflwynwyd wedi gwneud cynnydd sylweddol i fynd i'r afael â hyn ac roedd y risg yn agosáu at lefel dderbyniol. Roedd y mesurau'n cynnwys cyflwyno proses newydd ar gyfer adolygu a dysgu yn dilyn digwyddiadau i gryfhau'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith.
- Roedd newidiadau sefydliadol a threfniadau llywodraethu oedd yn datblygu wedi effeithio ar gyflawni rhai camau gweithredu o fewn y Cynllun Archwilio Mewnol. Roedd hyn wedi arwain at oedi i'r Fframwaith Atebolrwydd Proffesiynol, a threfniadau rheoli argyfwng a pharhad busnes. Dywedodd SF fod sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ar gyfer mis Medi, a rhagwelwyd y byddai'r camau gweithredu sy'n weddill yn cael eu datblygu yn unol â hynny.
- Roedd yr un achos o dorri rheolau caffael a adroddwyd yn ymwneud â chontract a oedd yn fwy na'i derfynau ariannol. Ymchwiliwyd i'r mater yn llawn, ac roedd proses ymsefydlu ddiwygiedig wedi'i rhoi ar waith i atal y broblem rhag digwydd eto.
- Ni adroddwyd am unrhyw weithgarwch atal twyll yn ystod y cyfnod ac roedd cydymffurfedd â hyfforddiant statudol a gorfodol yn parhau i fod yn uwch na'r targed cenedlaethol.

Diolchodd y Pwyllgor i SF am yr adroddiad.

Heb Ei Gadarnhau

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Croesawodd y gwelliant parhaus yn yr adroddiad, a cheisiodd sicrwydd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn cadarnhad o'r gwersi a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r achos o dorri rheolau caffael. Cadarnhaodd SF y byddai hyn yn cael ei rannu y tu allan i'r cyfarfod.

Cam Gweithredu: SF

- Nodwyd bod yr holl ddyddiadau ail-ragolygon a ddangoswyd yn yr adroddiad wedi mynd heibio, a cheisiwyd eglurhad ynghylch a oedd unrhyw gamau gweithredu mewn perygl o gael eu hoedi ymhellach. Cadarnhaodd SF fod y camau gweithredu bellach wedi'u cyflawni, a chynghorodd fod un cam gweithredu yn ymwneud â threfniadau arweinyddiaeth broffesiynol yn parhau i fod heb ei gymryd. Roedd y camau gweithredu hyn wedi'u hail-ragweld i ddiwedd mis Hydref oherwydd trafodaethau arweinyddiaeth glinigol parhaus.
- Awgrymwyd y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys darn cryno o'r gofrestr risg berthnasol i amlygu sgoriau risg, perchnogaeth, cynlluniau gweithredu a chynnydd yn well.
- Awgrymwyd y dylid adlewyrchu gweithgarwch Atal twyll rhagweithiol mewn adroddiadau yn y dyfodol. Cytunodd SF a chynghorodd y byddai gweithgarwch ymwybyddiaeth atal twyll yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Nodwyd bod yr argymhelliad terfynol yn cyfeirio at ddiffyg cydymffurfio heb nodi'n glir y mater y cyfeiriwyd ato. Cydnabu SF hyn a chytunodd i newid y geiriad.
- Nodwyd bod y Pwyllgor wedi cytuno o'r blaen y byddai diweddariad gan y Tîm Atal twyll yn cael ei gyflwyno i roi sicrwydd bod gweithgarwch priodol wedi'i gwblhau ac nad oedd unrhyw faterion o bryder wedi codi. Cytunodd SF i godi'r mater gyda'r Tîm Atal Twyll.

  Cam Gweithredu: SF

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
Nododd gynnwys yr adroddiad a chymerodd sicrwydd bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer prosesau cysylltiedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2026 – 31 Gorffennaf 2026:

Rheoli Risg (Chwarterol)

- Cymerodd **sicrwydd** bod proses rheoli risg effeithiol o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru.
- Cymerodd **sicrwydd** bod unrhyw risg a nodwyd gan Berfformiad GIG Cymru yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi'i huwchgyfeirio'n briodol.

Gweithgarwch Archwilio (Chwarterol)

- Cymerodd **sicrwydd** bod gweithgaredd Archwilio o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru
- yn cael ei reoli'n briodol drwy'r Cynllun Blynyddol o Weithgarwch Archwilio.
- **Nododd** fod 1 Archwiliad wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod, gyda manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor, ynghyd ag ymatebion y

Heb Eu Cadarnhau

rheolwyr.
- **Nododd** fod 1 Archwiliad yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd yn ystod y cyfnod hwn.
- **Nododd** fod 1 tor-rheol wedi'i adrodd ar gyfer y cyfnod hwn.
- Cymerodd **sicrwydd** fod ymatebion y rheolwyr i'r Archwiliad caffael wedi cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru at ddibenion atebolrwydd, a bod Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn gweithredu'n briodol ar y materion a godwyd yn yr Archwiliad roi ymateb y rheolwyr ar waith.

Cydymffurfiaeth Atal Twyll (Chwarterol)
- **Nododd** nad oedd unrhyw weithgarwch Atal twyll wedi'i adrodd o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Cydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth (Chwarterol)
- Cymerodd **sicrwydd** fod Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cydymffurfio â Pholisi a phrosesau Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cymerodd **sicrwydd** fod y diffyg cydymffurfio wedi'i adolygu a'i drafod gydag arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a bod camau priodol wedi'u cymryd.

ACGC 3.2/2026.09.03	**Perfformiad a Gwella GIG Cymru, Archwilio Mewnol**

Cyflwynodd PD Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Perfformiad a Gwella'r GIG, a oedd yn amlinellu cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol.

Tynnodd PD sylw'r Pwyllgor at Atodiad A i'r adroddiad a dywedodd fod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y rhaglen; roedd un adolygiad yn cael ei gwblhau ac wedi derbyn barn sicrwydd rhesymol ac roedd gwaith cynllunio wedi dechrau ar gyfer yr ail adolygiad archwilio mewnol a drefnwyd ar gyfer y flwyddyn.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cynnydd.

ACGC 4/2026.09.03	**Gweinyddiaeth i Gloi**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:

8 Rhagfyr 2026.

Diolchodd CJ i bawb am eu cyfraniadau a daeth â Rhan B y cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:13

Heb Ei Gadarnhau

Cofnodion Drafft Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarfod Sesiwn Gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Rhan A
03 Medi 2026, drwy Microsoft Teams

Yn bresennol		
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd, Cadeirydd y cyfarfod
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Digidol a Data
Huw David	(HD)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Llywodraeth Leol)
Yn Bresennol:		
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Cenedlaethol Ymchwil, Data a Digidol
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Leanne Clarke	(LC)	Cyfranogwr yng nghynllun Rheolaeth Ariannol GIG Cymru i Raddedigion
Nathan Couch	NC	Archwilio Cymru
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Katrina Febry	(KF)	Archwilio Cymru
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 10.1 a 10.2)
Dafydd James	(DJ)	Pennaeth Profiad a Gwasanaethau Digidol
Ian Kent	(IK)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol
Zoe Pietrzak	(ZP)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cyllid a Pherfformiad
Alexander Rees	(AR)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Neil Stoodley	(NS)	Pennaeth Cyllid Dros Dro
Martin Veale	(MV)	Ymgynghorydd Annibynnol
Ymddiheuriadau		
Kate Young	(KY)	Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol, Trydydd Sector
Catherine Purcell	(CP)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Prifysgol
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Chris Clayton	(CC)	Rheolwr Gyfarwyddwr Perfformiad a Gwella GIG Cymru
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Bree Gatica-Wilcox	(BG-W)	Cynrychiolydd Ochr y Staff
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Agorodd y Cyfarfod am 11:50		

heb Eu Cadarnhau

Heb Eu Gadarnhau

ACGC 5/2026.09.03	**Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldebau a oedd wedi dod i law.	

ACGC 6/2026.09.03	**Datganiadau o Fuddiant**
Nododd y Pwyllgor fod NE wedi datgan gwrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas â'i waith gyda thîm Digidol Llywodraeth Cymru.	

ACGC 7/2026.09.03	**Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol**
ACGC 7.1/2026.09.03	**Archwilio Allanol**

Cyflwynodd KF ac NC Adroddiad Diweddaru Archwilio Cymru a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Gwaith Archwilio Allanol a'r Adolygiad Trawsnewid Digidol.

Gwaith Archwilio Allanol

Cyflwynodd KF y Diweddariad Archwilio Allanol a thynnodd sylw at bwyntiau allweddol yn yr adroddiad:

- Roedd un adolygiad o Gynllun Archwilio 2025 yn parhau i fod heb ei gwblhau a oedd yn ymwneud â rhoi argymhellion a gododd o archwiliadau sgrinio 2023 a 2025 ar waith. Roedd yr adolygiad wedi'i ddrafftio ac roedd yn cael ei wirio'n fewnol cyn ei rannu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i wirio cywirdeb ffeithiol. Rhagwelwyd y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.
- Roedd gwaith wedi dechrau ar Asesiad Strwythuredig 2026. Hysbyswyd yr aelodau fod cwmpas yr Asesiad wedi newid yn sylweddol, a byddai'n canolbwyntio ar asesu effeithiolrwydd ac effaith trefniadau sefydliadol ar gyfer cynllunio, cyflawni a goruchwylio, gyda phwyslais arbennig ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2028.
- Byddai'r gwaith archwilio sy'n weddill a drefnwyd o fewn Cynllun Archwilio 2026 yn canolbwyntio ar wasanaethau diabetes, ac roedd y broses o bennu cwmpas yr adolygiad ar y gweill.

Diolchodd y Pwyllgor i KF am y diweddariad a nododd yr ymarfer ymgynghori ar ffioedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Adolygiad Trawsnewid Digidol

Cyflwynodd NC Adolygiad Trawsnewid Digidol Archwilio Cymru, ac amlinellodd fod yr adolygiad wedi archwilio sut mae dull Iechyd Cyhoeddus Cymru o drawsnewid digidol yn cefnogi gwella gwasanaethau. Cadarnhaodd NC fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adolygu'r adroddiad ac wedi cytuno ar y canfyddiadau.

Tynnodd NC sylw at ganfyddiadau allweddol yr adroddiad:

- Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu cyfeiriad strategol, arweinyddiaeth a llywodraethu clir ar gyfer trawsnewid digidol, ond nid oedd modd olrhain cynnydd yn glir hyd yma o dan y trefniadau adrodd presennol.

Heb ei Gadarnhau

- Roedd seiberddiogelwch yn parhau i fod yn risg sylweddol, ac roedd angen sicrwydd pellach ynghylch effeithiau a manteision deallusrwydd artiffisial (AI).
- Mae heriau parhaus mewn meysydd fel sgiliau digidol y gweithlu, capasiti a chyllid.
- Ar y cyfan, daeth NC i'r casgliad bod sylfeini cadarn yn eu lle, ond bod angen gwaith pellach i ddangos cyflawniad, mesur buddion, datblygu galluogrwydd y gweithlu a dangos tystiolaeth o ganlyniadau buddsoddiad digidol.
- Cafodd saith argymhelliad eu gwneud a'u derbyn gan y rheolwyr.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch sut roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymharu â sefydliadau eraill o fewn GIG Cymru ac a ddylai cyflymder y trawsnewid digidol fod yn destun pryder. Dywedodd NC fod y themâu a nodwyd yn gyson â'r rhai sy'n dod i'r amlwg ar draws sefydliadau GIG Cymru, ac yn adlewyrchu'r heriau ehangach sy'n gysylltiedig â chyflawni trawsnewid digidol. Cynghorodd IB fod cymariaethau â Lloegr yn anodd yn dilyn diddymu Iechyd Cyhoeddus Lloegr, ond roedd yn ymddangos bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gymharol debyg i sefydliadau cyfatebol o ran diogelu iechyd a sgrinio. Yng Nghymru, nododd IB fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dangos mwy o aeddfedrwydd na llawer o sefydliadau'r GIG o ran dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a mabwysiadu Safon Gwasanaeth Digidol Cymru.

Nododd IB hefyd fod camau gweithredu yn y maes hwn wedi symud ymlaen, ac roedd hyn yn cynnwys trefniadau adrodd diwygiedig a sesiwn datblygu Bwrdd wedi'i chynllunio ar ddeallusrwydd artiffisial a fyddai'n cefnogi goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at risg mewn perthynas â hygyrchedd cynyddol deallusrwydd artiffisial, a nododd yr angen am weithgarwch ehangach i ddatblygu a chodi ymwybyddiaeth y gweithlu mewn perthynas â risgiau deallusrwydd artiffisial a'i ddefnydd diogel. Cytunodd IB a chydnabu bwysigrwydd trefniadau ymwybyddiaeth ochr yn ochr â newid technolegol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nododd** y Diweddariad gan Archwilio Cymru ac Adolygiad Trawsnewid Digidol Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **Nododd** y byddai'r argymhellion yn cael eu hychwanegu at y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio.

ACGC 7.2/2026.09.03	**Archwilio Mewnol**

Cyflwynodd PD yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol, a oedd yn cynnwys y sefyllfa bresennol yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27.

Adroddodd PD fod Archwilio Mewnol wedi ymgymryd â gwaith i ddatblygu adolygiad o'r broses Hunanasesu Gafael a Rheoli yn unol â chais Llywodraeth Cymru, ac y byddai'r adolygiad hwn yn disodli'r adolygiad cyfalaf a oedd wedi'i gynnwys yn wreiddiol yn y Cynllun Archwilio. Byddai'r adolygiad cyfalaf yn cael ei ohirio i Gynllun Archwilio 2027/28. Roedd adolygiad yn ymwneud â Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio ar y gweill.

Heb Ei Gadarnhau

Dywedodd PD hefyd fod trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal ynghylch yr adolygiad arfaethedig o Gapasiti a Galluogrwydd y Gweithlu. Er nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto, nododd PD fod potensial i gwmpas yr adolygiad newid a chytunodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y byddai mwy o eglurder ar gael.

Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

Adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol ar Gyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyflwynodd PD Adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol ar Gyfathrebu ac Ymgysylltu, yr ystyrid ei fod o lefel Sicrwydd Rhesymol gyffredinol. Ni nodwyd unrhyw ganfyddiadau blaenoriaeth uchel.

Roedd chwe argymhelliad blaenoriaeth ganolig wedi'u cytuno gyda'r rheolwyr, gyda chynlluniau gweithredu ar waith. Ymhlith y meysydd i'w datblygu ymhellach roedd cymeradwyo'r Strategaeth Gyfathrebu'n ffurfiol, cryfhau'r Fframwaith Cyfathrebu, a gwella hygyrchedd a threfniadau cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Daeth PD i'r casgliad bod trefniadau effeithiol ar waith i raddau helaeth a bod yr adolygiad wedi darparu lefel gadarnhaol o sicrwydd.

Mynegodd y Pwyllgor bryder fod angen cryfhau prosesau cyfathrebu a cheisiodd sicrwydd bod rheolaethau digonol ar waith i atal cyfathrebiadau heb awdurdod neu amhriodol rhag cael eu cyhoeddi drwy sianeli sefydliadol. Cydnabu PD yr heriau sy'n gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol a phwysleisiodd pa mor bwysig yw trefniadau llywodraethu a rheoli cadarn. Nododd CJ y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ble y dylai sicrwydd ar y mater hwn fod yn fwyaf priodol o fewn fframwaith llywodraethu sefydliadol.

Adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol ar Terfynol Cynllunio Parhad Busnes

Cyflwynodd PD yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Gynllunio Parhad Busnes, yr ystyrid ei fod o lefel Sicrwydd Rhesymol gyffredinol.

Nododd yr adolygiad safbwynt cadarnhaol ar y cyfan, gydag un canfyddiad blaenoriaeth uchel a dau ganfyddiad blaenoriaeth ganolig. Roedd y canfyddiad blaenoriaeth uchel yn ymwneud â goruchwylio a chynnal Cynlluniau Parhad Busnes (BCPs) lleol ac Asesiadau Effaith Busnes (BIAs), tra bod y canfyddiadau blaenoriaeth ganolig yn ymwneud â threfniadau polisi a gofynion hyfforddiant parhaus.

Nododd y Pwyllgor yr angen parhaus am drefniadau parhad busnes heb fod yn ddigidol cadarn i sicrhau y gallai gwasanaethau hanfodol barhau yn ystod cyfnodau o aflonyddwch.
O ran y canfyddiad allweddol, cynghorodd HW fod adolygiad wedi nodi anghysondebau rhwng dogfennaeth a gedwir yn ganolog a fersiynau a ddarparwyd yn ystod yr archwiliad. Adroddodd HW fod 17 o 19 Asesiad Effaith Busnes y sefydliad yn gyfredol ac wedi'u cwblhau gan ddefnyddio'r templedi cywir, gyda rhesymau wedi'u nodi dros yr eithriadau sy'n weddill. Nodwyd nad oedd rhai dogfennau a adolygwyd gan Archwilio Mewnol wedi adlewyrchu'r fersiynau mwyaf cyfredol a gedwir gan wasanaethau. Felly, roedd prosesau diwygiedig wedi'u rhoi ar waith i sicrhau y byddai dogfennaeth gywir a chyfredol yn cael ei chynnal a'i rhannu yn y dyfodol.

Heb Ei Gadarnhau

Nododd y Pwyllgor y canlynol:

- Adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol ar Gynllunio Parhad Busnes ac Adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol ar Gyfathrebu ac Ymgysylltu.
- y byddai'r camau gweithredu o'r ddau Adroddiad Archwilio Mewnol yn cael eu hychwanegu at y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio.
- byddai'r adroddiadau hefyd yn cael eu hanfon at bwyllgorau eraill er gwybodaeth yn ôl yr angen.

Egwyl	
ACGC 7.3/2026.09.03	**Traciwr Argymhellion Archwilio**

Cyflwynodd LB y Traciwr Argymhellion Archwilio a thynnodd sylw at argymhellion a drafodwyd yn y Tîm Arweinyddiaeth yng nghyfarfod 20 Awst, gan gynnwys ceisiadau am estyniad yn ymwneud â sgrinio argymhellion archwilio. Yn dilyn adolygiad y Tîm Arweinyddiaeth, ceisiwyd sicrwydd pellach ynghylch y gallu i gyflawni dyddiadau cwblhau diwygiedig, ac roedd yr adroddiad wedi'i ddiweddaru yn adlewyrchu'r manylion ychwanegol a gymeradwywyd gan y Grŵp.

Cyfeiriodd LB hefyd at argymhelliad archwilio allanol hirsefydlog ar lywodraethu polisi. Er y gellid bod wedi mynd i'r afael â'r cam gweithredu gwreiddiol drwy welliant bach, roedd wedi'i ymgorffori mewn adolygiad ehangach o ddatblygu polisïau a llywodraethu i gryfhau cysondeb, goruchwyliaeth a sicrwydd, a oedd wedi arwain at y ceisiadau am estyniad. Fodd bynnag, roedd gweithdy gydag Arweinwyr Cynllunio Busnes ac aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth wedi'i drefnu ar gyfer Tachwedd 2026, a rhagwelwyd y byddai'r polisi diwygiedig yn cael ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2027.

Croesawodd y Pwyllgor y fformat adrodd diwygiedig, gan nodi ei fod yn darparu mwy o eglurder a sicrwydd, a cheisiodd eglurhad ynghylch unrhyw faich gweinyddol cysylltiedig. Cynghorodd LB fod y manylion ychwanegol yn adlewyrchu newidiadau o ran y cyflwyniad yn hytrach na'r broses, ac y byddai'r broses o olrhain argymhellion yn cael ei throsglwyddo i'r system Rheoli ac Olrhain Archwilio (AMAT) i awtomeiddio elfennau o adrodd a lleihau gweinyddiaeth â llaw.

Cydnabu'r Pwyllgor y gwelliannau sylweddol a wnaed i reoli polisïau yn y gorffennol a chefnogodd yr adolygiad a'r gwelliant parhaus o ran rheoli polisïau. Cwestiynodd y Pwyllgor a ddylid adolygu'n ffurfiol argymhellion sy'n destun estyniadau dro ar ôl tro i benderfynu a oeddent yn parhau i fod yn berthnasol ac yn angenrheidiol. Cytunodd LB i adlewyrchu'r adborth hwn mewn trafodaethau yn y dyfodol gyda'r Tîm Arweinyddiaeth ynghylch rheoli argymhellion a cheisiadau am estyniadau.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod camau gweithredu argymhellion Archwilio yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y Tîm Arweinyddiaeth.

ACGC 8/2026.09.03	**Llywodraethu ac Atebolrwydd**
ACGC 8.1/2026.09.03	**Cofnodion Rhannau A a B 7 Mai a 23 Mehefin 2026 a Chofnod Camau Gweithredu Rhannau A a B**

Ystyriodd y Pwyllgor Gofnodion Rhannau A a B y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2026 a 23 Mehefin 2026 a Chofnodion Gweithredu Rhan A a Rhan B.

Heb ei Gadarnhau

Nododd LB fod y cofnodion drafft wedi cael eu hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor (KY) a chynigiodd, yn absenoldeb KY, eu bod yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol KY. Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r cofnodion ar y sail honno.

Dywedodd LB fod un cam gweithredu heb ei gwblhau o fewn Rhan A o'r Log Camau Gweithredu yn ymwneud â chyhoeddi data Rhyddid Gwybodaeth ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adroddodd LB fod cais wedi'i wneud am estyniad i'r dyddiad cwblhau i 31 Rhagfyr 2026.

Cwestiynodd y Pwyllgor pam fod y camau gweithredu yn parhau heb eu cymryd. Dywedodd SS fod oedi wedi deillio o ofynion hyfforddiant a mynediad at systemau heb eu datrys o fewn y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, ynghyd â phwysau adnoddau yn y Tîm Cyfathrebu. Rhoddodd SS sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r camau gweithredu wedi'u cwblhau cyn y cyfarfod nesaf.

Pwysleisiodd y Pwyllgor fod hwn yn ofyniad statudol a bod angen cynyddu a datrys unrhyw rwystrau rhag gweithredu er mwyn sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymeradwyodd** gofnodion 7 Mai 2026 Rhannau Agored A a B yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol Cadeirydd y Pwyllgor.
- **Cymeradwyodd** gofnodion 23 Mehefin 2026 Rhannau Agored A a B yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol Cadeirydd y Pwyllgor.
- **Cymeradwyodd** yr estyniad i un Cam Gweithredu ar Gofnod Camau Gweithredu Rhan A
- **Nododd** nad oedd unrhyw gamau gweithredu agored ar Gofnod Camau Gweithredu Rhan B.

ACGC 8.2/2026.09.03	**Diweddariad Sicrwydd Llywodraethu Integredig Ch4 a Ch1**

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Chwarterol ar Lywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Chwarter
4 a Chwarter 1.

Cyflwynodd SS yr adroddiadau, a thynnodd sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- Roedd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun (SARs) yn parhau i gynyddu o ran nifer a chymhlethdod. Nododd SS fod y defnydd cynyddol o offer deallusrwydd artiffisial yn cyfrannu at geisiadau cynyddol gymhleth a chynghorodd y byddai'r galw'n parhau i gael ei fonitro.
- Byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol a data perfformiad ychwanegol ar gyfer SARs, gan adlewyrchu'r dull a gymerwyd ar gyfer adrodd ar faterion Rhyddid Gwybodaeth.
- Roedd nifer bach o geisiadau wedi mynd y tu hwnt i'r terfynau amser statudol oherwydd oedi wrth dderbyn gwybodaeth. Cynghorodd SS fod ceisiadau mwy cymhleth, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys trydydd partïon, yn aml yn gofyn am ymdriniaeth bellach, ond eu bod yn cael eu cefnogi trwy ymgysylltu'n rhagweithiol â cheiswyr. Parhawyd i fonitro perfformiad drwy drefniadau

Heb ei Gadarnhau

goruchwylio Timau Rheoli Cyfarwyddiaethau, y Tîm Arweinyddiaeth, y Bwrdd a'r Weithrediaeth.
- Byddai'r Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth, ynghyd â swyddogaethau llywodraethu eraill, yn trosglwyddo i Uned Fusnes y Bwrdd yn fuan.

Nododd y Pwyllgor yr her gynyddol a achosir gan geisiadau am wybodaeth a gynhyrchir gan AI ond pwysleisiodd fod gofynion ymateb statudol yn parhau heb eu newid. Gofynnodd y Pwyllgor am gynnwys gwybodaeth gyson am berfformiad SAR mewn adroddiadau yn y dyfodol, a chadarnhaodd SS y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys data perfformiad SAR a dadansoddiad ategol i roi trosolwg mwy cynhwysfawr.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyriodd** yr Adroddiadau Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth
- **Nododd** fod y drafodaeth ar dor diogelwch Data Personol a oedd yn rhan o'r adroddiad wedi'i chynnal mewn sesiwn breifat.

ACGC 8.3/2026.09.03	**Diweddariadau Llywodraethu Dwywaith y Flwyddyn**

Cyflwynodd LB yr Adroddiad Diweddariad Llywodraethu Dwywaith y flwyddyn, a oedd yn dwyn ynghyd ddiweddariadau ar ddatganiadau o fuddiant, Cylchlythyrau Iechyd Cymru, y Fframwaith Gweithio ar y Cyd a llywodraethu polisi.

Adroddodd LB fod tri datganiad lletygarwch wedi'u cofnodi yn ystod y cyfnod adrodd. Er bod lefelau adrodd yn parhau i fod yn isel, byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o ofynion datgan a lliniaru'r risg o dan-adrodd posibl.

Ers paratoi'r adroddiad, roedd pob Cylchlythyr Iechyd Cymru a gyhoeddwyd yn ystod 2026 wedi'i gwblhau a'i gau. Roedd tri chylchlythyr hŷn yn parhau ar agor, yn ymwneud â rhaglenni gwaith parhaus sylweddol, gyda diweddariadau cynnydd yn cael eu darparu.

Dywedodd LB fod trafodaethau diweddar ar y Fframwaith Gweithio ar y Cyd yn y Tîm Arweinyddiaeth wedi canolbwyntio ar gryfhau goruchwyliaeth strategol o gytundebau partneriaeth, gyda gwaith pellach ar y gweill i wella trefniadau llywodraethu.

Roedd dau bolisi o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn parhau i fod yn hwyr i'w hadolygu: Polisi Rheoli Risg Yswiriant ac Indemniad Cymru Gyfan ar gyfer Colledion a Thaliadau Arbennig a'r Polisi Adrodd ar Ddifrod a Cholledion i Eiddo Personol. Roedd y ddau wedi cael eu hasesu fel risg isel, roeddent yn cael eu hadolygu, a disgwylid iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2026.

Croesawodd y Pwyllgor ehangder ac eglurder yr adroddiad a'r wybodaeth sicrwydd ychwanegol a ddarparwyd ar ddatganiadau buddiant staff, a oedd wedi cael eu hystyried yn y sesiwn breifat.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymerodd **sicrwydd** ynghylch gweithredu'r Polisi Safonau Ymddygiad
- **Nododd** y Gofrestr Datganiadau Buddiant wedi'i diweddaru a oedd i fod i gael ei chyhoeddi ar y wefan yn dilyn y cyfarfod hwn.

PDF Gadarnhau

- **Nododd** fod Atodiad 2 wedi cael ei ystyried yn sesiwn breifat y cyfarfod.
- Cymerodd **sicrwydd** ynghylch y gwaith o reoli'r broses o sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â Chylchlythyrau Iechyd Cymru.
- Cymerodd **sicrwydd** ynghylch y gwaith o reoli'r broses o sicrhau cydymffurfedd y Sefydliad â'r Fframwaith Gweithio ar y Cyd.
- Cymerodd **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu polisïau a gweithdrefnau Corfforaethol a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

ACGC 9/2026.09.03	**Ar gyfer Argymhelliad i'r Bwrdd**
ACGC 9.1/2026.09.03	**Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo**

Cyflwynodd LB yr adolygiad blynyddol o'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo a chynghorodd fod angen adolygu a chymeradwyo'r dogfennau'n flynyddol.

Esboniodd LB fod yr adolygiad wedi'i ohirio tra'n aros am gyhoeddi Rheolau Sefydlog enghreifftiol Llywodraeth Cymru; fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddogfennau enghreifftiol wedi'u diweddaru wedi'u cyhoeddi ar gyfer y Rheolau Sefydlog na'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. O ganlyniad, cynhaliwyd adolygiad mewnol i sicrhau bod y dogfennau'n parhau i fod yn addas at y diben.

Adroddodd LB mai mân welliannau yn unig a gynigiwyd, a oedd yn cynnwys diweddaru teitlau a chyfeiriadau, a diweddaru dolenni.

Hefyd, dywedodd LB fod adolygiad o awdurdodau dirprwyedig y Pwyllgor Taliadau wedi'i gynnal i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyson â gofynion llywodraethu cyfredol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor argymell yr adroddiadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Medi.

Cadarnhaodd ZP fod adolygiad tebyg wedi'i gwblhau ar gyfer y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a bod y gwelliannau arfaethedig wedi'u cyfyngu i fân ddiweddariadau. Ni nodwyd na chynigiwyd unrhyw welliannau sylweddol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyriodd** y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog, y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Hawliau i'w Cadw a'u Dirprwyo.
- **Argymhellwyd** y newidiadau arfaethedig i'r Bwrdd i'w mabwysiadu.

ACGC 10/2026.09.03	**Risg**
ACGC 10.1/2026.09.03	**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gofrestr Risg Gorfforaethol a thynnodd sylw at y newidiadau allweddol ers y cyfnod adrodd blaenorol:

Tynnodd DG sylw at y newidiadau canlynol i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol:

- **Risg 1678:** Yn dilyn ymchwiliad manwl gan y Tîm Arweinyddiaeth ac ystyriaeth o sicrwydd diweddar, roedd y sgôr risg weddilliol wedi gostwng o 15 i 9.

Heb Eu Cadarnhau

- **Risg 1946:** Roedd y sgôr risg weddilliol wedi cynyddu o 12 i 16 oherwydd ansicrwydd parhaus ynghylch datblygu'r ateb rheoli risg Unwaith i Gymru arfaethedig a'i rhoi ar waith.
- **Risg 2143:** Roedd y sgôr risg gweddilliol wedi gostwng o 12 i 8 yn dilyn cyflwyno SBAR ac ymgysylltu llwyddiannus ag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ynghylch trefniadau cymorth y tu allan i oriau gwaith.

Dywedodd DG fod yr holl Risgiau Corfforaethol sy'n weddill wedi'u hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth a bod rhaglen o ymchwiliadau manwl wedi'i sefydlu i ystyried pob risg dros y deuddeg mis nesaf.

Cwestiynodd y Pwyllgor a oedd rhai sgoriau risg targed yn parhau i fod yn realistig o ystyried y sefyllfa risg weddilliol bresennol a nododd yr angen i ystyried eu cyd-fynd â'r archwaeth risg y cytunwyd arni gan y Bwrdd. Cadarnhaodd DG fod ymchwiliadau manwl y Tîm Arweinyddiaeth bellach yn cynnwys adolygiad o sgoriau targed a bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â rhoi'r Fframwaith Archwaeth Risg sefydliadol ar waith.

Nododd y Pwyllgor, ar gyfer Risg 1946 (datgomisiynu Gwe DATIX), fod y sgôr weddilliol yn uwch na'r sgôr gynhenid. Esboniodd DG fod hyn yn adlewyrchu rhagdybiaethau newidiol ac amgylchiadau sy'n gwaethygu sy'n gysylltiedig â rhaglen amnewid y system rheoli risg genedlaethol.

Trafododd y Pwyllgor pa mor bwysig yw sicrhau bod adrodd ar risg yn parhau i ganolbwyntio ar sicrwydd, cynnydd a lliniaru yn hytrach na manylion gweithredol gormodol. Cydnabu DG hyn a dywedodd fod gwaith ar y gweill i gryfhau dealltwriaeth sefydliadol o sicrwydd, gan gynnwys rhaglen o gyflwyniadau i Bwyllgorau'r Bwrdd ar fframweithiau sicrwydd a goruchwyliaeth effeithiol.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli risgiau Corfforaethol o fewn y Sefydliad.

ACGC 10.2/2026.09.03	**Cynllun Aeddfedrwydd Rheoli Risg**

Cyflwynodd DG y Cynllun Aeddfedrwydd Rheoli Risg a oedd wedi disodli'r Cynllun Datblygu Rheoli Risg blaenorol.

Dywedodd DG mai bwriad y cynllun oedd cefnogi cynnydd parhaus y sefydliad tuag at ddull mwy aeddfed ac wedi'i wreiddio o reoli risg. Nododd gyfres o amcanion, wedi'u cefnogi gan fesurau llwyddiant, cerrig milltir cyflawni a sgoriau RAG.

Adroddodd DG fod pob amcan, ac eithrio un, wedi cael sgôr Melyn, sy'n dangos bod gwaith ar y gweill ac yn symud ymlaen yn ôl y cynllun. Nid oedd unrhyw amcanion wedi rhagori ar yr amserlenni y cytunwyd arnynt, er bod dyddiad cwblhau Amcan 2 wedi'i ddiwygio oherwydd ansicrwydd ynghylch y System Rheoli Risg Electronig yn y dyfodol.

Tynnodd DG sylw at Amcan 5, yn ymwneud â metrigau perfformiad a Dangosyddion Risg Allweddol. Roedd trafodaethau cychwynnol wedi digwydd gyda chydweithwyr Rheoli Perfformiad ac roedd gwaith wedi dechrau i nodi mesurau priodol. Roedd cynnydd yn parhau i ddibynnu ar ddatblygiadau ehangach, gan gynnwys penderfyniadau ar y system rheoli risg yn y dyfodol, y rhaglen Cynllun Dirprwyo a metrigau ansawdd sefydliadol. Cynghorodd DG fod y sgôr Coch yn adlewyrchu'r dibyniaethau hyn yn hytrach na diffyg

Heb ei Gadarnhau

cynnydd, a bod yr amcan yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gyflawni o fewn y rhaglen ehangach hyd at 2028.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodwodd** y diweddariadau cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Aeddfedrwydd Rheoli Risg.
- Cymerodd **sicrwydd** fod y cynllun ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni o fewn amserlenni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'i fod yn cyd-fynd â chynlluniau gwaith y Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig (NQIG).

ACGC 11/2026.09.03	**Er Gwybodaeth**
ACGC 11.1/2026.09.03	**Cyllid, Caffael ac Atal Twyll**
Dim.	
ACGC 11.2/2026.09.03	**Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol**
Dim.	
ACGC 11.3/2026.09.03	**Rheoli Risg**
Ystyriodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol lawn er gwybodaeth a **nododd** fod y risg strategol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn (SRR 6) wedi'i hystyried yn y sesiwn breifat.	
ACGC 11.4/2026.09.03	**Llywodraethu ac Atebolrwydd**
Dim.	
ACGC 11.5/2026.09.03	**Cynllun Gwaith y Pwyllgor**
Ystyriodd a **nododd** y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor.	
ACGC 12/2026.09.03	**Gweinyddiaeth i Gloi**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.

Unrhyw Fater Arall:

Rhoddodd LB ddiweddariad ar ddau bolisi cyllid yng nghyfnodau olaf y broses gymeradwyo. Gan fod y ddau wedi methu cael eu cynnwys ar yr agenda gyfredol o drwch blewyn, byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gydag arweinwyr polisi i benderfynu ar frys eu cymeradwyaeth ac a ellid gohirio ystyriaeth tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Os bydd angen cymeradwyaeth cyn hyn, gellir bwrw ymlaen â'r polisïau trwy Weithred y Cadeirydd.

Diolchodd CJ i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:

8 Rhagfyr 2026.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:39

Heb Eu Gadarnhau